# Cynllun Trechu Tlodi
# Tackling Poverty Plan

## 2023



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys

1. **Rhagair**
2. **Cyflwyniad a Chyd-destun**
3. **Cynllun Gweithredu**

**Atodiad 1: Tlodi – Safbwynt Sir Gaerfyrddin**

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# 1. Rhagair
# Y Cynghorydd Linda Davies Evans,
# Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Drechu Tlodi

Mae'r Cynllun Trechu Tlodi hwn yn ddogfen bwysig i'r Cyngor wrth i ni fynd ati i geisio lleihau peth o'r pwysau mae tlodi'n ei achosi i bobl a chymunedau lleol. Mae'n siomedig bod yn rhaid i ni baratoi cynllun o'r fath, ond y gwir amdani yw bod mwyfwy o'n trigolion a'n cymunedau bellach yn wynebu heriau o achos tlodi. O ganlyniad rydym ni fel Cyngor, gan weithio gyda'n partneriaid, yn awyddus i helpu ym mha bynnag ffordd y gallwn.

Rydym yn cydnabod yn fawr fod yr argyfwng costau byw presennol yn cael effaith fawr ar ein trigolion, ond rydym hefyd yn cydnabod yr effaith hirdymor a gaiff tlodi felly rydym yn awyddus i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi a dod o hyd i ffyrdd o gynorthwyo ein trigolion i godi eu hunain allan o dlodi.

Rhaid i ni sylweddoli na allwn ni fel Cyngor ddatrys tlodi ein hunain - mae angen rhoi sylw i nifer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y sefyllfa, ar lefel Gymreig ac ar lefel y DU. Fodd bynnag mae gennym rôl flaenllaw o ran cefnogi ein trigolion a'n cymunedau i helpu eu hunain, trwy waredu'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cael cymorth, a grymuso pobl i wneud drostynt eu hunain.

Gyda hyn mewn golwg, mae mynd i'r afael â thlodi yn flaenoriaeth thematig i'r Cyngor fel rhan o'i Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2022-27, a bydd yn allweddol o ran gwneud cynnydd mewn perthynas â'n hamcan llesiant i alluogi ein pobl i fyw a heneiddio'n dda. Yn ogystal, mae trechu tlodi ac effaith tlodi yn un o amcanion llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, ac fel Cyngor byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ar feysydd lle mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd, er mwyn gwneud cynnydd ar yr amcan hwn.

Mae'r Cynllun hwn yn ymateb i'n gweithgarwch dros y 12 mis nesaf, ac yn canolbwyntio i raddau helaeth ar gefnogi pobl yn ystod yr argyfwng costau byw. Mae hefyd yn nodi meysydd datblygu allweddol a fydd yn ein galluogi i fireinio ein cynllun tymor hwy er mwyn mynd i'r afael ag achosion ehangach tlodi. Yn ystod y 12 mis nesaf bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Strategaeth Genedlaethol ar Dlodi Plant, ac wedi i hynny ddigwydd, byddwn yn adolygu ein dull gweithredu ac yn datblygu ymhellach ein cynllun trechu tlodi tymor canolig/hir.

Rwy' am gydnabod mewnbwn a chefnogaeth y Panel Ymgynghorol ynghylch Trechu Tlodi, sef panel o aelodau etholedig trawsbleidiol, sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r cynllun hwn mewn modd ystyriol, adeiladol ac ystyrlon. Mae'r cyfraniad hwn i'w groesawu'n fawr wrth i ni gyd wneud ein gorau i gefnogi trigolion a chymunedau Sir Gâr.

# 2. Cyflwyniad a Chyd-destun

2.1 Sut ydym yn diffinio tlodi?

At ddibenion y cynllun hwn a'n dull gweithredu fel Cyngor, byddwn yn mabwysiadu diffiniad Sefydliad Joseph Rowntree o dlodi yn y DU:

> Mae tlodi yn effeithio ar filiynau o bobl yn y DU. Mae tlodi yn golygu peidio â gallu cynhesu'ch cartref, talu eich rhent, neu brynu'r hanfodion ar gyfer eich plant. Mae'n golygu deffro bob dydd yn wynebu ansicrwydd, amhendantrwydd a phenderfyniadau amhosibl am arian. Mae'n golygu wynebu ymyleiddio – a hyd yn oed gwahaniaethu – oherwydd eich amgylchiadau ariannol. Gall y straen cyson y mae'n ei achosi arwain at broblemau sy'n amddifadu pobl o'r cyfle i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas.

2.2 Pam yr ydym yn paratoi cynllun?

- Un diffiniad o dlodi cymharol yw pryd y bydd cyfanswm enillion aelwyd yn llai na 60% o'r incwm canolrifol cenedlaethol. Yn 2022, roedd 60% o'r incwm canolrifol cenedlaethol yn £22,020. Ar lefel aelwydydd mae'r data paycheck diweddaraf sydd ar gael yn awgrymu bod 34.5% o'r holl aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, mae hyn yn cyfateb i tua 28,730 o aelwydydd. Mae Sir Gaerfyrddin yn arddangos yr 8fed lefel uchaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'r lefelau tlodi yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru o 1.1%.

- Yn ogystal ag enillion, rydym hefyd wedi rhoi ystyriaeth i ganfyddiadau'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru diweddaraf (2019), sef dull swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer mesur amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bychain yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd gan gynnwys mynediad at wasanaethau; diogelwch cymunedol; addysg; cyflogaeth; iechyd; tai; incwm; a'r amgylchedd ffisegol. Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfanswm o 112 Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) ac mae 25 o'r rhain sydd yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu hystyried yn rhai sydd o fewn y 30% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn (60%) wedi'u lleoli yn rhanbarth Llanelli (15 LSOA) gydag 20% yn ardal Aman (5 LSOA), 12% yn ardal Gwendraeth (3 LSOA) ac 8% wedi'u lleoli yn ardal Caerfyrddin (2 LSOA).

- Mae gennym Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol statudol i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2021.

- Mae'r pandemig COVID-19 ac argyfyngau costau byw cyfredol yn dangos mwy o effaith ar y rheiny sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae angen i ni gael gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n gyrru hyn a mynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau newid tymor hwy i'n trigolion a'n cymunedau.

2.3 Ni all y Cyngor ddatrys y sefyllfa ar ei ben ei hun, ac felly mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda'n partneriaid o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol a rhanddeiliaid o'r

trydydd sector, y sector cymunedol a'r sector preifat i symud rhwystrau a galluogi pobl i helpu eu hunain, gan hefyd roi llais i lobïo ar lefel Cymru a'r DU.

2.4 Mae'r Cyngor wedi nodi Trechu Tlodi fel un o'n blaenoriaethau thematig yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-27, sy'n cyd-fynd â'r Amcan Llesiant ehangach o alluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus. Yn ogystal, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin wedi gosod Amcan Llesiant penodol i drechu tlodi a'i effeithiau fel rhan o Gynllun Llesiant 2023-28. Felly, byddwn yn sicrhau bod y Cyngor a phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb i'r heriau sy'n wynebu ein trigolion.

2.5 Mae'r Cyngor wedi penodi Aelod Cabinet yn benodol i ganolbwyntio ar drechu tlodi ac mae Panel Ymgynghorol Trechu Tlodi, wedi'i ethol gan aelodau'r gwahanol bleidiau, ar waith i gefnogi a chynghori'r Aelod Cabinet ynghylch ei ddull o ddatblygu'r agenda hon. Mae yna Weithgor Swyddogion ar lefel Penaethiaid Gwasanaeth sy'n arwain ymateb y Cyngor i'r gwaith hwn ac mae disgwyl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i nodi meysydd gweithredu ar y cyd lle gall partneriaid ychwanegu gwerth drwy gydweithio.

2.6 Mae'r Cyngor eisoes yn darparu ystod o wasanaethau cymorth sy'n ceisio darparu cyngor ac arweiniad i'n trigolion ar ystod o faterion. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys, ymhlith eraill:

- Gwasanaethau cymorth tai gan gynnwys cymorth i denantiaid ac atal digartrefedd
- Gwasanaethau refeniw a budd-daliadau
- Canolfannau Hwb a'r Ganolfan Gyswllt
- Cynlluniau cyflogadwyedd
- Gwasanaethau cymorth yn seiliedig ar addysg, gwasanaethau cymorth i deuluoedd a chefnogi pobl
- Cynlluniau adfer economaidd a chymorth busnes.

Bydd y Cyngor yn edrych yn barhaus ar ffyrdd o sicrhau bod y gwasanaethau hyn wedi'u hintegreiddio'n llawn ac yn ymateb i anghenion ein preswylwyr mewn ffordd gyfannol. Byddwn hefyd yn sicrhau mwy o gydweithio rhwng ein gwasanaethau a gwasanaethau darparwyr allanol er mwyn hwyluso mynediad trigolion at wasanaethau cymorth perthnasol.

2.7 Ar gyfer y cynllun hwn rydym wedi nodi pedwar maes ffocws allweddol. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu unwaith y bydd y Strategaeth Genedlaethol ar Dlodi Plant yn cael ei chyhoeddi:

i. Mae angen i ni **<u>ddeall yn well yr heriau</u>** sy'n wynebu ein sir a defnyddio ein dealltwriaeth well i ysgogi ein hymyriadau. Bydd angen i ni edrych ar hyn ar draws gwasanaethau'r Cyngor a'i bartneriaid, gan ganolbwyntio ar ardaloedd daearyddol allweddol (tebyg i'r rhaglen waith bresennol yn Tyisha) a grwpiau poblogaeth sy'n wynebu anfanteision penodol.

ii. Mae angen inni **atal tlodi** – mae cydberthynas gref rhwng cael eich geni'n dlawd a wynebu oes o dlodi ac mae modd atal llawer o'r ffactorau sy'n sbarduno tlodi yn ystod plentyndod ac yn ddiweddarach mewn bywyd os cânt eu nodi ac os eir i'r afael â nhw yn amserol. Felly gall darparu ymyriadau cynnar, cyfannol a dargedwyd helpu i leihau'r tebygolrwydd o dlodi yn ein cymunedau.

iii. Mae angen i ni **helpu pobl i gael gwaith** – gwaith yw un o'r ffyrdd mwyaf sylfaenol ac effeithiol o drechu tlodi yn ei holl ffurfiau. Mae gwaith yn darparu incwm a chyfleoedd ar gyfer gwell iechyd a llesiant.

iv. Mae angen i ni **wella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi** drwy gefnogi'r rheiny sy'n dlawd a gwella mynediad i gymorth ar gyfer cynnal safonau byw sylfaenol.

2.8 Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant genedlaethol newydd. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn ystod y 12 mis nesaf. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth genedlaethol honno a bydd yn adolygu ein cynlluniau lleol unwaith y caiff ei chyhoeddi.

2.9 Fodd bynnag, o ystyried y pwysau presennol sy'n wynebu trigolion yn Sir Gaerfyrddin, teimlwn ei bod yn bwysig ac yn angenrheidiol nodi'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd dros y 12 mis nesaf i gefnogi rhai o'r heriau tymor byr y bydd ein trigolion yn eu hwynebu wrth ddatblygu ein dealltwriaeth a'n hymateb i'r materion tymor canolig a thymor hwy. Felly, ystyrir y bod cynllun hwn yn gynllun tymor byr dros dro a fydd yn cael ei adolygu'n llawn unwaith y bydd y Strategaeth Tlodi Plant genedlaethol ar waith.

2.10 Byddwn yn ymgorffori pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth i ni weithredu amrywiol gamau gweithredu'r cynllun hwn ac rydym yn datblygu ymhellach ein dull gweithredu yn y tymor canolig a'r tymor hir.

| 5 ffordd o weithio | Dull y Cyngor |
|---|---|
| **Cydweithio**<br>Cydweithio ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant | Datblygu dealltwriaeth ar draws y Cyngor o gyfleoedd cydweithio. Bydd hyn yn cael ei adolygu a'i ddatblygu'n barhaus fel rhan o'r dull Un Cyngor o ymdrin â'r flaenoriaeth thematig hon. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill | Gwella ein dealltwriaeth o effeithiau ar draws gwasanaethau a sicrhau bod ein hymyriadau yn gweithio tuag at yr un nod ac amcan.<br>Datblygu gwell dealltwriaeth ac ymateb ar draws y sefydliad er mwyn gallu darparu gwasanaethau cyfannol i'n trigolion. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan y corff | Sicrhau bod y rheiny sydd â phrofiad bywyd o dlodi yn cael llais blaenllaw wrth lunio ein dull gweithredu. |
| **Ffocws hirdymor**<br>Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r anghenion tymor hir | Datblygu ein dealltwriaeth o'r heriau er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi ac nid mynd i'r afael â'r heriau tymor byr sy'n codi yn unig. |
| **Atal**<br>Sut y gall gweithredu i atal problemau | Rydym yn cydnabod bod ymyrraeth gynnar i atal problemau rhag gwaethygu yn ganolog i'r agenda hon. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod yr adnoddau sydd ar |

| | |
|---|---|
| rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion | gael i ddarparu cymorth yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon. |

2.11 Un o brif feysydd ffocws y cynllun hwn yw deall yn well yr heriau sy'n wynebu ein Sir. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd yn y maes hwn gan ddatblygu Proffil Tlodi ar gyfer Sir Gaerfyrddin a fydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n barhaus bob chwe mis. Atodir y fersiwn diweddaraf (Ebrill 2023) fel Atodiad 1. Byddwn yn defnyddio'r proffil hwn fel modd o gasglu, cydosod a dadansoddi gwahanol setiau data a gwybodaeth er mwyn adeiladu'r darlun o dlodi yn y Sir, datblygu ein dealltwriaeth, nodi bylchau data a llywio ein penderfyniadau ynghylch ymyriadau arfaethedig.

# 3. Cynllun Gweithredu

Nodwyd swyddog(ion) arweiniol ar gyfer pob un o'r camau hyn, ond dylid nodi y bydd holl wasanaethau perthnasol y Cyngor yn cyfrannu'n rhagweithiol at y gwaith hwn a bydd y Cyngor yn ymgysylltu ag aelodau perthnasol eraill o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill er mwyn gwneud cynnydd.

| Maes Blaenoriaeth | Materion allweddol | Cam Gweithredu a Nodwyd | Swyddog(ion) Arweiniol | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|
| **Atal Tlodi** | • Gall llu o wasanaethau cymorth fod ar gael a gall fod yn anodd i drigolion (a staff) wybod beth a sut i gael mynediad ato.<br>• Nid yw croesgyfeirio rhwng gwasanaethau yn y Cyngor bob amser yn digwydd - am nifer o resymau: diogelu data, diffyg ymwybyddiaeth, capasiti, golwg arbenigol ar fynd i'r afael ag anghenion cwsmeriaid | Datblygu model cymorth cyffredinol trwy gyfrwng Hwb – brysbennu a chyfeirio. Bydd hyn yn ychwanegol at fynediad uniongyrchol at wasanaethau arbenigol sydd eisoes ar waith. | Deina Hockenhull | Datblygu dull gweithredu, bydd yn cael ei adolygu'n barhaus |
| | | Datblygu cynnwys gwefan y Cyngor a gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael ac opsiwn hunangyfeirio | Deina Hockenhull | Datblygu cynnwys, bydd yn cael ei adolygu'n barhaus |
| | | Ymgorffori dull cyfannol o fynd i'r afael ag anghenion cwsmeriaid ar draws holl wasanaethau'r cyngor drwy ddatblygu dulliau trawsgyfeirio a rheoli cleientiaid ar draws gwasanaethau – adolygu'r arfer gorau cyfredol h.y. ffurflen atgyfeirio sengl gwasanaethau plant | Deina Hockenhull a Gwyneth Ayers | Ionawr 2024 |
| | | Adolygu'r pwyntiau mynediad presennol a datblygu dull cyson o weithredu a datblygu map ffordd ar gyfer cyswllt â chwsmeriaid – ffocws penodol ar broses ymholiadau Cynghorwyr. | Deina Hockenhull, Siân Rees-Harper a Gwyneth Ayers | Medi 2023 |
| | | Nodi materion diogelu data a datblygu dull ar gyfer mynd i'r afael â hyn h.y. ceisio caniatâd perthnasol ar gyfer rhannu data ar y pwynt cyswllt cychwynnol â chwsmer | Deina Hockenhull, Siân Rees-Harper a Gwyneth Ayers | Medi 2023 |

| Maes Blaenoriaeth | Materion allweddol | Cam Gweithredu a Nodwyd | Swyddog(ion) Arweiniol | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|
| | | Datblygu cyfeiriadur mewnol o wasanaethau cymorth i staff y Cyngor (a chynghorwyr) – ystyried defnyddio a datblygu ymhellach gyfeiriaduron presennol megis Dewis | Deina Hockenhull a Siân Rees-Harper | Medi 2023 ac yn cael ei adolygu'n barhaus |
| | | Datblygu ffyrdd o ddarparu cymorth i ddisgyblion a theuluoedd ehangach trwy gyfrwng staff cymorth ysgolion – bydd angen bod yn ystyriol o adnoddau a chapasiti | Aeron Rees | Medi 2023 |
| | | Datblygu cynllun cyfathrebu gyda ffocws ar ymgyrchoedd penodol – gan gysylltu â gwaith cenedlaethol | Deina Hockenhull | Cynllun cyfathrebu ar waith – bydd yn cael ei adolygu'n barhaus |
| **Gwella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi** | • Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o gymorth ariannol, a'r stigma sy'n gysylltiedig â hawlio yn dal i fod yn broblem.<br>• Mae'r pandemig/argyfwng costau byw wedi cael effaith galetach ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig - mae angen ystyried pa ymyriadau penodol y gellir eu darparu<br>• Gall llythrennedd digidol fod yn rhwystr rhag cael gafael ar y cymorth sydd ar gael | Hyrwyddo budd-daliadau nad ydynt yn cael eu hawlio yn benodol gyda grwpiau wedi'u targedu e.e. prydau ysgol am ddim; Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor; **Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai** | Deina Hockenhull a Gwyneth Ayers | Cynllun cyfathrebu ar waith – bydd yn cael ei adolygu'n barhaus |
| | | Ystyried cyfleoedd ar gyfer sesiynau allgymorth – gan ganolbwyntio ar 10 tref wledig | Deina Hockenhull | Gorffennaf 2023 |
| | | Adolygu cysylltiadau presennol y Cyngor gyda grwpiau a sefydliadau allanol a nodi ffyrdd o wella trawsgyfeirio a rhannu gwybodaeth am faterion allweddol sy'n wynebu Sir Gaerfyrddin | Deina Hockenhull, Siân Rees-Harper a Gwyneth Ayers | Tachwedd 2023 |
| | | Gweithio gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall y prif heriau yn well, nodi'r gefnogaeth bresennol a bylchau ar gyfer datblygu ymhellach | Gwyneth Ayers | Medi 2023 |

| Maes Blaenoriaeth | Materion allweddol | Cam Gweithredu a Nodwyd | Swyddog(ion) Arweiniol | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|
| | • Mae nifer o grwpiau a sefydliadau cymunedol hefyd yn darparu cefnogaeth – rhai yn lleol iawn, eraill ar draws y sir | Cael gwell dealltwriaeth o lythrennedd digidol ar draws Sir Gaerfyrddin a datblygu cynllun ar gyfer mynd i'r afael â hyn | Gwyneth Ayers | Rhagfyr 2023 |
| **Helpu pobl i gael gwaith** | • Darperir nifer o wahanol raglenni cyflogadwyedd (maent yn tueddu i gael eu hariannu gan grant) – cysylltedd da gyda rhai gwasanaethau ond gallent gael eu datblygu ymhellach ar draws y Cyngor.<br>• Mae tlodi mewn gwaith yn broblem ond mae angen i ni ddeall yn well pam a sut y mae hyn yn effeithio ar ein trigolion. | Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno, sicrhau cysylltiadau rhwng ysgolion a'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol gyda golwg ar baratoi disgyblion trwy roi iddynt sgiliau ar gyfer y dyfodol a meysydd ar gyfer twf o ran cyflogaeth/gyrfaoedd | Aeron Rees a Jason Jones | Medi 2023 |
| | | Adolygu gwybodaeth a gasglwyd trwy gynlluniau cyflogadwyedd mewn perthynas â heriau a rhwystrau lleol wrth gael pobl i mewn i waith | Jason Jones a Gwyneth Ayers | Rhagfyr 2023 |
| | | Ystyried prosiectau/rhaglenni newydd y gellid eu darparu trwy gyfleoedd cyllido yn y dyfodol | Gweithgor Swyddogion Trechu Tlodi | Yn parhau |
| **Gwell dealltwriaeth o'r heriau** | • Mae angen i ni fynd yn ôl i ganolbwyntio ar bwy sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y pandemig/argyfwng costau byw, lle mae'r angen mwyaf a deall grwpiau allweddol yn well a pha gymorth sydd ei angen/ar gael e.e. y digartref, y di-waith, y rheiny sydd angen addysg neu hyfforddiant. | Dadansoddiad o ymchwil a gwybodaeth yn ymwneud â COVID/effaith costau byw ar y gymuned – nodi cymunedau allweddol/grwpiau poblogaeth sydd o ddiddordeb yn Sir Gaerfyrddin. | Gwyneth Ayers a Rachel Clegg | Caiff ei adolygu bob 6 mis |
| | | Ymchwil i fudd-daliadau nad ydynt yn cael eu hawlio er mwyn datblygu ymgyrchoedd wedi'u targedu | Gwyneth Ayers a Rachel Clegg | Tachwedd 2023 |
| | | Ymchwil i gyfraddau tlodi mewn gwaith yn Sir Gaerfyrddin a deall y rhwystrau yn well | Gwyneth Ayers a Rachel Clegg | Tachwedd 2023 |
| | | Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r amrywiol ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan wasanaethau i helpu i adeiladu darlun o Sir Gaerfyrddin – dull dywedwch wrthym unwaith | Gwyneth Ayers a Rachel Clegg | Caiff ei adolygu bob 6 mis |

| Maes Blaenoriaeth | Materion allweddol | Cam Gweithredu a Nodwyd | Swyddog(ion) Arweiniol | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|
| | • Manteisio ar fudd-daliadau/hawliau - angen deall y sefyllfa bresennol yn well er mwyn targedu carfannau penodol yn y dyfodol<br>• Tlodi mewn gwaith – angen deall goblygiadau a chwmpas hyn yn well<br>• Gwella'r defnydd o ddata a gwybodaeth sydd eisoes gan y Cyngor – adeiladu darlun o Sir Gaerfyrddin<br>• Mae gan grwpiau a sefydliadau allanol gyfoeth o wybodaeth – angen rhannu gwybodaeth i ddatblygu darlun o Sir Gaerfyrddin | Datblygu dealltwriaeth ar sail ddaearyddol – beth yw'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng gwahanol gymunedau. Bydd yn cefnogi ymyrraeth wedi'i thargedu yn hytrach na chefnogaeth gyfannol | Gwyneth Ayers a Rachel Clegg | Caiff ei adolygu bob 6 mis |
| | | Datblygu rhwydwaith o swyddogion data a pherfformiad ar draws y cyngor (a chyda phartneriaid eraill) i helpu i adeiladu gwybodaeth a darlun Sir Gaerfyrddin | Gwyneth Ayers a Rachel Clegg | Gorffennaf 2023 |

# Atodiad 1:

# Tlodi – Safbwynt Sir Gaerfyrddin

# Tlodi – Safbwynt Sir Gaerfyrddin

**Ebrill 2022**
**Diweddarwyd: Ebrill 2023**



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# Tudalen Gynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Cyfraddau Tlodi | 2 |
| Ffactorau Cyfrannol | 6 |
| Darlun Ardal Bach | 12 |

# Adran 1 - Rhagarweiniad

### 1.1 Pwrpas a Chyd-destun

Ystyrir bod tlodi yn un o'r heriau mwyaf difrifol sy'n wynebu Cymru a'i hawdurdodau lleol. Mae'n fater sydd wedi bod yn gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae disgwyl iddo waethygu hyd yn oed ymhellach yn wyneb costau byw cynyddol. Mae Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) yn diffinio tlodi fel;

*'..peidio â gallu cynhesu'ch cartref, talu eich rhent, neu brynu'r hanfodion ar gyfer eich plant. Mae'n golygu deffro bob dydd yn wynebu ansicrwydd, amhendantrwydd a phenderfyniadau amhosibl am arian. Mae'n golygu wynebu ymyleiddio – a hyd yn oed gwahaniaethu – oherwydd eich amgylchiadau ariannol.'*[1]

Mae'r cymhlethdodau sy'n ymwneud â thlodi yn golygu ei fod yn digwydd yn wahanol mewn gwahanol leoedd ac i grwpiau gwahanol o bobl. Er enghraifft, ceir tystiolaeth dda mai Cymru sydd â'r cyfraddau tlodi uchaf o holl wledydd y DU; fodd bynnag, er mwyn targedu ymyriadau yn seiliedig ar angen, mae'n hanfodol deall i ba raddau y mae tlodi yn effeithio ar ein hardaloedd llai. Drwy ddefnyddio data a gwybodaeth sydd ar gael, mae'r adroddiad hwn yn bwriadu darparu llinell sylfaen o hyn ar gyfer Sir Gaerfyrddin a bydd yn ceisio mynd i'r afael â rhai cwestiynau allweddol, yn benodol:

- Pwy yw'r grwpiau y mae tlodi yn effeithio arnynt fwyaf yn Sir Gaerfyrddin?
- Lle mae tlodi wedi'i grynhoi a pham?
- Sut mae tlodi gwledig yn wahanol i dlodi trefol?
- Pa mor gyffredin yw tlodi plant yn Sir Gaerfyrddin?
- Pa mor gyffredin yw tlodi mewn gwaith yn Sir Gaerfyrddin?

### 1.2 Proses a Methodoleg

Daeth y pandemig â llawer o heriau yn ei sgil, yn enwedig gyda golwg ar gasglu data. Mae enghreifftiau yn yr adroddiad hwn lle cyfeirir at ddata ar gyfer 2021 ac ymlaen. Bydd y data hwn yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd pan oedd y pandemig ar ei anterth ac felly dylid ei ddehongli'n ofalus. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn perthynas â data ar dlodi plant.

Mae diffyg un mesur gorau ar gyfer tlodi yn ychwanegu haen bellach o gymhlethdod i ddeall yn iawn beth mae'n ei olygu a sut mae'n edrych. Gyda hyn mewn golwg, mae'r gwaith hwn yn defnyddio nifer o wahanol ffynonellau data er mwyn creu darlun mor gynrychioliadol â phosibl, mae'r rhain yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) – Ystadegau aelwydydd sydd ar incwm is na'r cyfartaledd
- Data CACI Paycheck
- Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
- Cyfrifiad 2021

[1] What is poverty? | JRF


# Adran 2 – Cyfraddau Tlodi

### 2.1 Cyfraddau Tlodi Cymharol yn gyffredinol

Un diffiniad o dlodi cymharol yw pryd y bydd cyfanswm enillion aelwyd yn llai na 60% o'r incwm canolrifol cenedlaethol.[2]

Rhwng 2017-18 a 2019-20 mae'r data'n dangos bod 23% o holl bobl Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol, sef y lefel uchaf o holl wledydd y DU. Mae'r ffigur wedi bod yn gymharol sefydlog dros y 15 mlynedd diwethaf sy'n awgrymu y gallai fod angen ymyriadau pellach (yn ogystal â'r rhai sy'n bodoli eisoes) i godi pobl allan o dlodi neu leihau'r perygl y byddant yn syrthio i dlodi yn y lle cyntaf. Darperir dadansoddiad tuedd o sut y mae'r gyfradd hon wedi newid dros amser yn ffigur 1 isod yn erbyn cymaryddion gwledydd y DU.[3]

Ffigur 1




### 2.1.1 Cyfraddau Tlodi Sir Gaerfyrddin

Ar lefel aelwydydd mae'r data paycheck diweddaraf sydd ar gael yn awgrymu bod 34.5% o'r holl aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, [4]mae hyn yn cyfateb i tua 28,730 o aelwydydd. Mae hyn yn ostyngiad bach o 1.1% ers y llynedd sy'n adlewyrchu tueddiadau a welwyd yn genedlaethol. Credir bod hyn i raddau helaeth yn ymwneud â'r cyfnod amser a gwmpesir gan y data sy'n cyd-fynd â'r pandemig.
Tra bod hyn yn wir mae Sir Gaerfyrddin yn dal i arddangos yr 8fed lefel uchaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'r lefelau tlodi yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru o 1.1%.

---

[2] Yn 2022 roedd 60% o'r incwm canolrifol cenedlaethol yn £22,020
[3] Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020 | LLYW.CYMRU
[4] Mae'r cyfanswm incwm aelwydydd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain Fawr

### 2.2 Cyfraddau Tlodi Plant

Plant yw'r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol yn gyson; mae hyn yn wir ym mhob un o bedair gwlad y DU. Dangosodd data ar gyfer 2019/20 fod 31.3% o blant Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, o gymharu â 30.6% ar lefel Cymru.

Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2021 yn amcangyfrif bod 34% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi, sy'n gynnydd o 4.8 pwynt canran dros y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn o gymharu â lefel y DU o 27%. Mae'r ffigurau ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn dangos cynnydd o 4.7 pwynt canran dros yr un cyfnod, gyda 34.6% o blant yn byw mewn tlodi.[5] Mae hyn yn cyfateb i tua 11,247 o blant. Dyma'r 12fed lefel uchaf o holl awdurdodau lleol Cymru a'r chweched gyfradd newid uchaf ar y cyd dros y pum mlynedd diwethaf.[6]

Yn ôl y disgwyl, mae'r gyfran fwyaf o blant sy'n byw mewn tlodi yn byw mewn aelwydydd heb waith. Fodd bynnag, yr hyn sy'n fwy pryderus yw'r gyfradd gynyddol y mae plant sy'n byw ar aelwydydd sy'n gweithio yn byw mewn tlodi. Ar lefel Cymru mae'r risg bod plentyn mewn tlodi ar aelwyd lle mae pob oedolyn mewn gwaith yn 17%. Mae hyn yn gynnydd o 5 pwynt canran o 12% dros y deng mlynedd diwethaf.[7]

#### 2.2.1 Cymhwysedd am Brydau Ysgol am Ddim


Mae cymhwysedd am brydau ysgol am ddim wedi cynyddu'n sylweddol yn Sir Gaerfyrddin o 15% ym mlynyddoedd academaidd 2017/18 i 22% ym mlynyddoedd academaidd 2021/22. Mae hyn 2% yn uwch na'r un ffigur ar gyfer De-orllewin a Chanolbarth Cymru ac 1% yn uwch na ffigur Cymru. O gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, Sir Gaerfyrddin sydd wedi gweld y cynnydd canrannol chweched uchaf oddi ar lefelau 2017/18, sef 49%.[8]

### 2.3 Tlodi mewn Gwaith

Er bod yna dystiolaeth dda bod gweithio mewn gwaith cyflogedig yn lleihau'r risg o dlodi o gymharu â bod ar aelwyd ddi-waith, mae data tueddiadau yn dangos bod lefelau'r hyn a ystyrir yn dlodi 'mewn gwaith' yn cynyddu. I roi'r cyd-destun, mae'r risg o fod mewn tlodi i oedolion o oedran gweithio sy'n byw ar aelwyd lle mae pob oedolyn yn gweithio wedi cynyddu 2 bwynt canrannol rhwng 2010 a 2020.[9] Dangosir hyn yn Ffigur 2 isod.

[5] Child-Poverty-AHC-estimates-2015-2021-FINAL.xlsx (live.com)
[6] Mae'r ffigurau Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog ar gyfer 2020/21 yn llai dibynadwy nag ar gyfer blynyddoedd cynharach oherwydd materion samplu yn gysylltiedig â'r pandemig. Dylid cadw hyn mewn cof wrth ddehongli'r ystadegau
[7] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/childreninrelativeincomepoverty-by-economicstatusofhousehold
[8] Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a blwyddyn (llyw.cymru)
[9] Oedolion o oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd (llyw.cymru)

**Ffigur 2**




Mae tystiolaeth bellach yn dangos bod y risg o dlodi yn uwch ar gyfer gweithwyr anabl, gweithwyr BAME, rhieni sengl a theuluoedd â phlant. Mae gostyngiad mewn incwm budd-daliadau a chostau byw cynyddol yn parhau i dynnu teuluoedd incwm isel sy'n gweithio i mewn i dlodi. [10]

Mae ansawdd y swyddi (tâl), swm y swyddi (cyfranogiad aelodau'r aelwyd yn y farchnad lafur) a gwariant yr aelwyd (cost dibynyddion) yn rhai o'r ffactorau sy'n cyfrannu at dlodi mewn gwaith. [11] Caiff hyn ei gadarnhau yn ffigur 2[12] sy'n dangos mai aelwydydd ag un person neu fwy mewn cyflogaeth lawn amser sydd â'r risg isaf o fod mewn tlodi incwm.

Caiff y rhesymau dros dlodi mewn gwaith eu harchwilio ymhellach yn adran 3.

! Mae diffyg data ar gael ar lefel Sir Gaerfyrddin ar gyfer y mesur hwn.

### 2.4 Pensiynwyr mewn Tlodi

Mae'r data diweddaraf yn dynodi bod 18% o bensiynwyr yng Nghymru yn byw mewn tlodi, sef bron i 1 o bob 5 o bobl. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu 4 pwynt canran dros gyfnod o ddeng mlynedd hyd at 2020-2022.[13]

Credir bod y cyfraddau cynyddol yn rhannol o ganlyniad i fod unigolion yn ymddeol heb gynilion neu enillion digonol. Caiff hyn ei waethygu gan gostau byw cynyddol, ac mae'r ffaith mai ychydig iawn o gyfle sydd gan bensiynwyr i gynyddu eu hincwm i wrthweithio'r effeithiau

[10] UK Poverty 2019/20: Work | JRF
[11] Hick and Lanau _ In-Work Poverty in the UK.pdf (nuffieldfoundation.org)
[12] Oedolion o oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol yn ôl math o gyflogaeth (llyw.cymru)
[13] Pensiynwyr mewn tlodi incwm cymharol yn ôl oedran pennaeth yr aelwyd (llyw.cymru)

hyn yn dwysáu'r sefyllfa. Dengys tystiolaeth hefyd mai pensiynwyr yw'r lleiaf tebygol o wirio pa fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, caiff hyn ei archwilio ymhellach yn adran 3.

Mae diffyg data ar gael ar lefel Sir Gaerfyrddin ar gyfer y mesur hwn.

### 2.5 Tlodi yn ôl Deiliadaeth

Ar lefel Cymru, mae'r risg o fod mewn tlodi ar ei huchaf ar gyfer rhentwyr cymdeithasol (47%). Caiff hyn ei yrru gan gostau tai cynyddol ac incwm isel. Dilynir hyn gan risg o 34% ar gyfer rhentwyr preifat a 13% ar gyfer aelwydydd sydd mewn perchen-feddiannaeth. [14]

Yn Sir Gaerfyrddin mae 29.2% o aelwydydd yn cael eu rhentu'n gymdeithasol neu'n breifat, sy'n llai na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae mwy o bobl yn y sir (43.6%) yn berchen ar eu cartref yn llwyr o gymharu â'r ffigurau cenedlaethol sydd yn 38% yng Nghymru a 32.8% yng Nghymru a Lloegr.[15]

### 2.6 Digartrefedd

Mae yna lawer o resymau pam y gall unigolion fynd yn ddigartref, ond mae diffyg tai fforddiadwy a thlodi yn enghreifftiau o rai o'r prif ffactorau a all gyfrannu at hyn.

Ar lefel Cymru mae nifer yr aelwydydd sy'n ddigartref yn anfwriadol ac sydd mewn angen blaenoriaethol wedi bod yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, o gyfradd o 17 fesul 10,000 o aelwydydd yn 2017/18 i 30 yn 2021/22. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau ar gyfer yr un mesur yn sylweddol uwch yn Sir Gaerfyrddin ac wedi bod yn cynyddu ar gyfradd gyflymach. Y gyfradd ar gyfer 2021/22 oedd 65 fesul 10,000 o aelwydydd, a oedd yn gynnydd o 225% ers 2017/18, o gymharu â chynnydd o 76% ar lefel Cymru.[16]

Er y byddai'n deg priodoli rhywfaint o'r cynnydd hwn i'r gofynion estynedig a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig i dderbyn dyletswydd digartref i bob aelwyd, mae'r cynnydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn ymddangos yn anghymesur uwch. Ar gyfer Sir Gaerfyrddin, arweiniodd y newidiadau hyn at gynnydd mewn cyflwyniadau gan aelwydydd unigol a grwpiau teuluol -[17] gellid dadlau y byddai'r duedd hon wedi cael ei harddangos ledled Cymru oherwydd effeithiau pellgyrhaeddol y pandemig.

Mae ffigurau gan y Samariaid yn awgrymu bod y gallai 1.7 miliwn o bobl gael eu gwthio i ddigartrefedd eleni, gyda'r argyfwng costau byw yn fwy tebygol o effeithio ar gartrefi incwm isel. Rhagwelwyd y byddai angen 133% o incwm ar gyfartaledd ar gyfer rhent, bwyd ac ynni erbyn mis Ionawr 2023. Mae'n anochel bod hyn yn arwain at ostyngiad mewn safonau byw ac felly'n creu mwy o risg o ddigartrefedd.[18]

---

[14] Pobl mewn tlodi incwm cymharol yn ôl math o ddeiliadaeth (llyw.cymru)
[15] Cyfrifiad 2021
[16] Cartrefi cymwys ar gyfer cymorth digartrefedd ac mewn blaenoriaeth angen yn ôl ardal a mesur (Adran 75)
[17] Cyngor Sir Caerfyrddin
[18] Reasons for Homelessness | Why is homelessness increasing? (connection-at-stmartins.org.uk)

# Adran 3 – Ffactorau Cyfrannol

Nid oes un rheswm pendant pam fod unigolion yn eu cael eu hunain yn byw mewn tlodi na pham y gallai ardal gael ei heffeithio'n fwy difrifol, yn hytrach mae llu o faterion gyda'i gilydd yn creu ecosystem lle gall tlodi wreiddio a ffynnu.

Caiff y ffactorau cyfrannol posibl sydd fwyaf perthnasol i'r cyfraddau cynyddol hyn eu harchwilio ymhellach isod.

### 3.1 Costau byw cynyddol

Nododd ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda thrigolion Sir Gaerfyrddin ddiwedd 2022 mai'r argyfwng costau byw oedd un o'r prif heriau yr oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr[19] a'u teuluoedd yn eu hwynebu adeg yr arolwg.

I roi hyn yn ei gyd-destun, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol mae cyfradd chwyddiant y DU ar hyn o bryd yn 8.9%. Mae hyn yn golygu bod y person cyffredin ar hyn o bryd yn gwario 8.9% yn fwy ar yr un cynhyrchion o gymharu â 12 mis yn ôl.[20]

Yr hyn sy'n peri'r mwyaf o bryder yw'r ffaith y gellir ystyried bod y ddau gategori uchaf ar gyfer chwyddiant yn hanfodol i gael safon byw iach. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Bwyd a diodydd di-alcohol (19.2%)

Mae prisiau bwyd yn cynyddu ar eu cyfradd gyflymaf ers 45 mlynedd. Er y bydd hyn yn effeithio waethaf ar aelwydydd sydd ar incwm isel, mae'n debygol o wthio aelwydydd sydd ond yn llwyddo i gael deupen y llinyn ynghyd islaw'r llinell dlodi. Mae hyn yn rhoi aelwydydd mewn sefyllfa lle mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd gyda golwg ar wariant wrth i gynnal safonau byw ddod yn fwy heriol.

Mae'r galw am barseli bwyd brys yng Nghymru wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed, gydag Ymddiriedolaeth Trussel yn nodi eu bod wedi darparu 185,230 o barseli i'r rheiny sydd mewn angen rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Mae hyn yn gynnydd o 41% oddi ar ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Darparwyd 69,683 ar gyfer teuluoedd â phlant, gan gyfrif am 38% o gyfanswm y parseli a ddosbarthwyd.[21]

Ar lefel Sir Gaerfyrddin, ers 2017-2018 mae'r galw am barseli bwyd brys gan Ymddiriedolaeth Trussell wedi cynyddu 40%. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dynodi bod 11,758 o barseli bwyd wedi'u dosbarthu rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Roedd 39% o'r parseli hyn ar gyfer plant. Mae nifer y canolfannau dosbarthu hefyd wedi dyblu o 4 i 8.[22]

Yn ôl Sefydliad Joseph Rowntree, ar lefel y DU mae 2.9 miliwn o unigolion mewn tlodi yn wynebu ansicrwydd bwyd, sy'n golygu na allant gael mynediad at ddigon o fwyd neu ddiet amrywiol a maethlon. Mae hyn yn golygu bod 20% o bobl mewn tlodi heb sicrwydd bwyd, gyda thua 26% o blant mewn tlodi yn wynebu'r ansicrwydd bwyd hwn. Dim ond 4% o'r rheiny nad ydynt mewn tlodi sydd mewn ansicrwydd bwyd.
Gall ansicrwydd bwyd gael effeithiau mawr ar iechyd pobl sydd, yn ei dro, yn rhoi mwy o bwysau ar system gofal iechyd sydd eisoes dan bwysau.[23]

[19] 2,195 o ymatebwyr
[20] Dangosfwrdd chwyddiant - Data Cymru
[21] Microsoft Word - EYS Wales Factsheet 2022-23 - FINAL (trusselltrust.org)
[22] Ymddiriedolaeth Trussel – Ystadegau Diwedd y Flwyddyn
[23] https://www.financialfairness.org.uk/docs?editionId=13680f09-11bd-4bd0-9a11-028152543b8d


- Tai, dŵr, trydan, nwy a thanwydd arall (11.6%)

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol bu cynnydd o 4.4% mewn prisiau rhent preifat a dalwyd gan denantiaid yn y DU yn y 12 mis hyd at fis Ionawr 2023, sef y newid canrannol blynyddol mwyaf ers mis Ionawr 2016.[24] Yng Nghymru bu cynnydd o 3.9% mewn prisiau rhent preifat yn y 12 mis hyd at fis Ionawr 2023. Mae hyn i fyny o gynnydd o 3.5% ym mis Rhagfyr 2022 a dyma'r newid canrannol blynyddol uchaf ers i'r gyfres hon yng Nghymru ddechrau ym mis Ionawr 2010.[25]

Yn ogystal, ledled y DU mae 12 miliwn o bobl yn nodi dirywiad yn eu gallu i gadw eu cartrefi'n gynnes ac yn gyfforddus. Yn ôl adroddiad Financial Fairness 2022, mae 44% o bobl yn dechrau ei chael hi'n anodd gwresogi eu cartrefi.[26] Fodd bynnag, yng Nghymru mae Sefydliad Bevan yn dweud bod 57% o bobl yn gorfod torri'n ôl ar wresogi, trydan a/neu ddŵr.

### 3.2 Cyfran y grwpiau sydd fwyaf mewn perygl

Mae data dynameg incwm a gyhoeddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi syniad o'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o fod ar incwm isel parhaus ar lefel y DU. Darperir golwg weledol ar hyn isod[27]:




Gan mai incwm isel yw un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at dlodi, mae defnyddio'r data hwn a'i roi yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin yn rhoi syniad o ble a pha fath o dlodi a allai fod fwyaf cyffredin yn y Sir.

Mae'r data yn nhabl 1 isod yn dangos bod Sir Gaerfyrddin yn gartref i lefel uwch na'r cyfartaledd o nifer o'r mathau o deuluoedd sydd fwyaf mewn perygl o fod mewn tlodi (a amlygir mewn Coch yn y tabl). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhieni unigol,

[24] Casglwyd data am y tro cyntaf ar lefel y DU
[25] Index of Private Housing Rental Prices, UK - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[26] https://www.financialfairness.org.uk/docs?editionId=13680f09-11bd-4bd0-9a11-028152543b8d
[27] % y grwpiau poblogaeth ar incwm isel parhaus (cyn costau tai) y DU https://www.gov.uk/government/statistics/income-dynamics-2010-to-2020

- Pensiynwyr sengl,
- Aelwydydd pensiynwyr (h.y. cwpl sy'n bensiynwyr),
- Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor neu anableddau sy'n cyfyngu arnynt,
- Aelwydydd heb waith.

Gall presenoldeb uwch na'r cyfartaledd o'r grwpiau hyn yn y Sir roi syniad o ble mae tlodi wedi'i grynhoi ac felly ble a pha ymyriadau y dylid eu blaenoriaethu. Caiff hyn ei archwilio ymhellach ar lefel ward yn Adran 4.

Tabl 1

| **Math o deulu** | **Is-fath** | **Sir Gaerfyrddin** | | **Cymru** | | **Cymru a Lloegr** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Ffigur** | **%** | **Ffigur** | **%** | **Ffigur** | **%** |
| **Rhiant sengl gyda phlant (2011)** | Rhieni unigol mewn cyflogaeth ran-amser | 1,914 | 32.2% | 32,694 | 33.5% | 555,483 | 33.4% |
| | Rhieni unigol mewn cyflogaeth amser llawn | 1,662 | 28.0% | 24,341 | 25.0% | 432,214 | 26.0% |
| | Ddim mewn cyflogaeth | 2,363 | 39.8% | 40,489 | 41.5% | 674,508 | 40.6% |
| **Aelwyd Un Person (o oedran pensiynwr)** | 66 oed neu'n hŷn | 12,569 | 15.4% | 196,056 | 14.6% | 3,197,845 | 12.9% |
| **Aelwyd Teulu Sengl (lle mae pob preswylydd o oedran pensiynwr)** | Pawb yn 66 oed neu'n hŷn | 9,525 | 11.6% | 138,010 | 10.2% | 2,283,288 | 9.2% |
| **Grŵp Ethnig** | Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog | 1,756 | 0.9% | 48,598 | 1.6% | 1,717,976 | 2.9% |
| | Asiaidd/Asiaidd Prydeinig/Asiaidd Cymreig | 2,321 | 1.2% | 89,028 | 2.9% | 5,515,420 | 9.3% |
| | Du/Du Prydeinig/Du Cymreig/Affricanaidd/Caribïaidd | 455 | 0.2% | 27,554 | 0.9% | 2,409,278 | 4.0% |
| | Unrhyw Grŵp Ethnig arall | 714 | 0.4% | 26,466 | 0.9% | 1,255,619 | 2.1% |
| **Iechyd** | Gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu llawer | 21,255 | 11.3% | 319,406 | 10.3% | 4,459,763 | 7.5% |
| | Gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu ychydig | 21,897 | 11.7% | 350,860 | 11.3% | 5,985,013 | 10.0% |
| | Salwch hirdymor neu anabl | 9,710 | 6.2% | 151,321 | 5.9% | 2,025,621 | 4.2% |
| **Gwaith** | Aelwydydd heb Waith | 11,600 | 21.2% | 157,700 | 17% | (Prydain Fawr) 2,866,800 | 14% |

## 3.3 Enillion

Mae'r ystadegau diweddaraf ar gyfer 2021 yn dangos mai enillion wythnosol gros cyfartalog Cymru yw £603.50 sy'n sylweddol is na chyfartaledd Prydain Fawr o £642.20[28]. Yn Sir Gaerfyrddin, y cyflog wythnosol cyfartalog yw £623.40, sy'n uwch na chyfartaledd Chymru ond mae'n dal yn amlwg yn is na chyfartaledd Prydain Fawr. Mae enillion yn cael effaith

[28] Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) yn ôl gwlad yn y DU - rhanbarth yn Lloegr a blwyddyn (£) (llyw.cymru)

uniongyrchol ar fywyd unigolyn, gan effeithio ar bob penderfyniad a wneir. Mae hyn yn mynd yn arbennig o anodd os nad yw enillion unigolyn yn caniatáu iddo ddiwallu ei anghenion sylfaenol a chaiff hyn ei waethygu os nad yw twf cyflog yn cyd-fynd â chyfradd chwyddiant, ac mae llawer yn wynebu effeithiau hyn ar hyn o bryd.

Mae'r cyflogau is na'r cyfartaledd hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r mannau ble mae swyddi wedi'u crynhoi yng Nghymru a'i hardaloedd llai, gyda mwy o bobl ar gyfartaledd yn gweithio mewn meysydd galwedigaethol sy'n tueddu i gynnig cyflogau is a chyflogaeth lai diogel. Dangosir hyn yn nhabl 2 isod, sy'n dangos yn glir bod y ddau gyfartaledd yn Sir Gaerfyrddin yn fwy na chyfartaleddau Prydain Fawr yng ngrwpiau mawr 8 a 9 a 6 a 7. I'r gwrthwyneb, mae'r cyfartaleddau yn sylweddol is ar gyfer grwpiau galwedigaethol 1-3 lle mae'r cyflogau'n tueddu i fod yn uwch a'r swyddi yn fwy sicr.

Tabl 2 – Cyflogaeth yn ôl Galwedigaeth 2021 - 2022[29]

| Grŵp Galwedigaethol | Sir Gaerfyrddin (%) | Cymru (%) | Prydain Fawr (%) |
|---|---|---|---|
| **Grŵp Mawr 1-3** | **41.3** | **45.9** | **51.6** |
| 1. Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch-swyddogion | 7.7 | 8.5 | 10.5 |
| 2. Galwedigaethau Proffesiynol | 20.3 | 22.4 | 26.0 |
| 3. Gweithiwr Proffesiynol a Thechnegol Cysylltiol | 13.2 | 14.9 | 14.9 |
| **Grŵp Mawr 4-5** | **24.5** | **20.8** | **18.8** |
| 4. Gweinyddol ac Ysgrifenyddol | 10.7 | 9.9 | 10.1 |
| 5. Galwedigaethau Crefftau Medrus | 13.8 | 10.8 | 8.6 |
| **Grŵp Mawr 6-7** | **18.6** | **16.1** | **14.5** |
| 6. Galwedigaethau Gofalu, Hamdden a Gwasanaeth Eraill | 10.7 | 8.9 | 8.0 |
| 7. Galwedigaethau Gwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid | 7.9 | 7.1 | 6.5 |
| **Grŵp Mawr 8-9** | **15.6** | **17.2** | **15.1** |
| 8. Gweithredwyr Prosesau a Pheiriannau | 7.0 | 6.3 | 5.5 |
| 9. Galwedigaethau Elfennol | 8.5 | 10.9 | 9.5 |

### 3.4 Y System Fudd-daliadau

Mae'r system fudd-daliadau yng Nghymru yn cael ei gweinyddu fel rhan o system nawdd cymdeithasol ledled Prydain Fawr gyda phwerau'n cael eu cadw gan Lywodraeth Ganolog y DU. Fodd bynnag, mae yna heriau economaidd-gymdeithasol a demograffig sy'n unigryw i Gymru ac sydd, yn anochel, yn rhoi pwysau gwahanol ar y system. [30]

Er bod y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn is na'r DU, mae gan Gymru gyfran uwch o bobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir. Er enghraifft, mae'r data diweddaraf yn dangos bod 65% o unigolion yn Sir Gaerfyrddin sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith wedi bod yn gwneud hynny ers dros 12 mis. Mae hyn o gymharu â 58% ar lefel Cymru. [31]

Yn ogystal, Cymru sydd â'r gyfradd uchaf o anabledd ymhlith gwledydd y DU a phoblogaeth hŷn. Mae'r nodweddion hyn yn dod â set unigryw o heriau gyda nhw sy'n awgrymu nad yw dull 'un maint i bawb' o bolisi lles o reidrwydd yn addas i'r diben.

[29] ONS – Annual Population Survey
[30] The Benefits System in Wales (parliament.uk)
[31] ONS – JSA Claimants by Duration (August 2022)

Rhoddodd y pandemig bwysau digynsail ar system nawdd cymdeithasol y DU. Un o'r newidiadau mwyaf nodedig a wnaed ar yr adeg hon oedd y cynnydd dros dro i gymorth Llywodraeth y DU i hawlwyr budd-daliadau gyda'r 'codiad o £20' i Gredyd Cynhwysol, a ategwyd gan gynnydd i'r Lwfans Tai Lleol. Fel y nodwyd yn flaenorol, credir bod y codiad hwn yn un ffactor a gyfrannol at y gostyngiad mewn cyfraddau tlodi diweddar, ond mae arbenigwyr yn credu y bydd y gwelliannau hyn yn fyrhoedlog o ystyried bod y codiad bellach wedi'i ddileu.

Cafodd y mesurau hyn eu galw'n 'achubiaeth' gan lawer o sefydliadau a oedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r rheiny a dderbyniodd y codiad hwn. Fodd bynnag, ers hynny mae'r mesurau hyn wedi cael eu dileu mewn cyfnod lle mae'r DU yn wynebu argyfwng costau byw. I roi'r cyd-destun, ym mis Ebrill 2022 bu cynnydd o 3.1% i fudd-daliadau pan oedd chwyddiant yn llawer uwch. Mewn termau real, mae hyn yn golygu mai ym mis Ebrill 2022 y bu'r gostyngiad mwyaf sylweddol yng ngwerth cyfradd sylfaenol budd-daliadau diweithdra ers 1972, pan ddechreuodd uwchraddio blynyddol.[32]

Yn gadarnhaol, o fis Ebrill 2023 bydd budd-daliadau a'r cap budd-daliadau yn cynyddu yn unol â chwyddiant. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod Lwfans Tai Lleol yn parhau i fod wedi'i rewi ac mae cyfradd sylfaenol budd-daliadau yn isel.

Yn ogystal, credir bod elfennau pellach o'r system fudd-daliadau bresennol yn cynyddu'r tebygolrwydd o dlodi a dylid mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys:

- Y terfyn o ddau blentyn mewn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm,
- Y cap budd-daliadau (uchafswm y budd-dal y gall rhywun di-waith ei dderbyn mewn budd-daliadau),
- Gorfod aros am bum wythnos cyn cael taliad Credyd Cynhwysol cyntaf,
- Didyniadau anfforddiadwy o fudd-daliadau i dalu dyledion,
- Cyfraddau Lwfans Tai Lleol sy'n torri'r cysylltiad rhwng costau tai a budd-daliadau.[33]

### 3.5 Hawl i Fudd-daliadau a'r nifer sy'n manteisio arnynt

Ar lefel y DU credir bod yna 7.1 miliwn o bobl nad ydynt yn manteisio ar £15.1 biliwn o fudd-daliadau, gan gynyddu'r risg o gael eu gwthio i galedi ariannol neu hyd yn oed i dlodi.[34] Mae hawl i fudd-daliadau a'r nifer sy'n manteisio arnynt o ganlyniad yn ffactor sy'n cyfrannu at hyn, a'r rhwystrau a nodwyd fwyaf yn hyn o beth yw stigma sefydliadol, cywilydd diwylliannol a'r canfyddiad bod hawlwyr budd-daliadau yn cael eu cynrychioli mewn modd negyddol ar y cyfryngau.[35]

Daeth ymchwil ar lefel y DU a gynhaliwyd gan Turn2Us yn 2021 i'r casgliad nad yw 45% o bobl erioed wedi gwirio pa fudd-daliadau y gallai fod ganddynt hawl iddynt. Yr hyn sy'n fwy pryderus yw mai pensiynwyr fel cyfran yw'r lleiaf tebygol o wirio hyn, gyda 63% o'r garfan hon heb wirio erioed. Nhw hefyd yw'r lleiaf tebygol o hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, gydag 1 o bob 3 ddim yn manteisio ar Gredyd Pensiwn. Mae hwn yn fater mwy perthnasol i Sir Gaerfyrddin gan fod y sir yn gartref i nifer uwch na'r cyfartaledd o unigolion dros 65 oed (24%), o gymharu â 21% ar lefel Cymru a 18.6% ar lefel y DU.[36] Gallai sicrhau felly bod pensiynwyr yn cael eu cynorthwyo i gael gafael ar y cymorth y mae ganddynt hawl iddo fynd rhywfaint o'r ffordd i leihau'r gyfradd tlodi pensiynwyr sy'n gynyddol amlwg.

---

[32] https://www.jrf.org.uk/report/uk-poverty-2023
[33] UK Poverty 2023: The essential guide to understanding poverty in the UK | JRF
[34] £15bn of benefits unclaimed last year - Your Money
[35] Turn2Us 2021
[36] Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl awdurdod lleol ac oedran (llyw.cymru)

Nod Tlodi Plant: Cynllun Pwyslais ar Incwm Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael â'r cymhlethdod sy'n ymwneud â hawl i fudd-daliadau a manteisio arnynt, ac un o'r amcanion strategol yn hyn o beth yw sicrhau bod teuluoedd yng Nghymru yn cael eu cynorthwyo i hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo. Nodwyd pocedi o arfer da ledled Cymru gyda golwg ar symleiddio prosesau ymgeisio ar gyfer budd-daliadau a weinyddir gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen gwneud mwy o waith i leihau'r rhwystrau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth symleiddio prosesau ymgeisio, gan gynnwys:

- Materion sy'n gysylltiedig â systemau/seilwaith TG,
- Yr angen am set gyffredin o brotocolau rhannu data,
- Cyfyngiadau neu ddehongliadau gwahanol o'r ddeddfwriaeth bresennol.[37]

### 3.6 Costau Gofal Plant Cynyddol

Mae'r dystiolaeth yn dynodi bod costau gofal plant cynyddol yn rhwystr i lawer o unigolion sy'n awyddus i ddod o hyd i waith neu i ddychwelyd i'w gwaith parhaol.

Caiff hyn ei gadarnhau gan y data dynameg incwm a ddarparwyd yn gynharach sy'n awgrymu bod 20% o bobl sengl â phlant a 18% o deuluoedd di-waith yn debygol o fod ar incwm isel parhaus.

Mae costau gofal plant wedi bod yn cynyddu'n raddol o flwyddyn i flwyddyn ers dros ugain mlynedd ac mae argaeledd gofal plant yn gostwng. Mae'r Arolwg[38] Gofal Plant a gynhaliwyd gan Coram Family and Childcare yn dynodi:

- *Cynnydd o 5.6% mewn costau ers 2022, ar gyfer lle gofal plant rhan-amser i blant dan 2 oed mewn meithrinfa ym Mhrydain Fawr. Yng Nghymru, mae hyn wedi cynyddu 2.8%.*
- *Mae rhai rhieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i gael 30 awr o ofal plant wedi'i ariannu bob wythnos yn ystod y tymor. Os oes angen iddynt dalu am 20 awr ychwanegol i gynyddu hyn i le llawn amser (50 awr yr wythnos) y pris wythnosol cyfartalog mewn meithrinfa yw £117.60 yn Lloegr a £98.79 yng Nghymru.*
- *Yng Nghymru ceir rhai bylchau mewn argaeledd o hyd, ac nid oes unrhyw awdurdodau lleol yn dweud bod digon o ofal plant ar draws y fwrdeistref ar gyfer plant anabl, rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.*[39]

[37] Symleiddio prosesau ymgeisio ar gyfer budd-daliadau a weinyddir gan awdurdodau lleol: arweinlyfr arferion gorau [HTML] | LLYW. CYMRU
[38] Arolwg o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr a gynhaliwyd rhwng Tachwedd 2021 a Chwefror 2022
[39] Childcare Survey 2023_Coram Family and Childcare.pdf (familyandchildcaretrust.org)


# Adran 4 – Darlun Ardal Bach

### 4.1 Cyfraddau Cyffredinol

Fel y nodwyd yn adran 2, ystyrir bod 34.5% o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi o ganlyniad i'r ffaith fod cyfanswm incwm eu haelwyd yn is na 60% o'r incwm canolrifol ar gyfer Prydain Fawr.

Mae Ffigur 3 isod yn rhoi syniad o'r cyfraddau tlodi ar gyfer 51 ward Sir Gaerfyrddin. Mae 18 ward yn dangos cyfraddau uwch na'r gyfradd tlodi ar draws y Sir sy'n awgrymu bod effeithiau tlodi o bosibl yn fwy dwys yn yr ardaloedd hyn nag mewn ardaloedd eraill. Mae'r rhain wedi'u lliwio mewn gwyrdd.

**Ffigur 3**




Fel y nodwyd yn y siart, y wardiau sy'n arddangos y lefelau uchaf o dlodi yw:

Tyisha, Llwynhendy, Glanymôr, Dafen a Felin-foel, Cwarter Bach, Glanaman, Bigyn, Rhydaman, Y Garnant, Porth Tywyn, Llanymddyfri, Trimsaran, Llanybydder, Lliedi, Gogledd a De Tref Caerfyrddin, Pontyberem, Elli a Chydweli a Llanismel.

## 4.2 Dadansoddi Wardiau yn ôl Nodweddion Allweddol

Mae Tabl 3 isod yn rhoi syniad o ba wardiau sydd yn y chwartel[40] uchaf (25% uchaf) ar gyfer nodwedd benodol. Mewn geiriau eraill, mae'r wardiau yn gartref i'r gyfran uchaf o'r boblogaeth sydd â nodwedd benodol. Mae'r nodweddion y cyfeirir atynt yn cyd-fynd â'r grwpiau poblogaeth a nodwyd fel y rhai sydd mewn mwyaf o berygl o fod ar incwm isel parhaus (fel y nodwyd yn flaenorol yn adran 3 o dan 3.2). Daw'r data o'r Cyfrifiad diweddaraf ac mae'n rhoi syniad o ddemograffeg pob ward. Mae gosod hyn yng nghyd-destun tlodi yn ein galluogi i gael dealltwriaeth fwy gwybodus o pam fod tlodi fel petai'n effeithio'n fwy difrifol ar rai wardiau nag eraill.

Bydd hyn yn helpu i dargedu ymyriadau yn ôl maes yr angen ac yn ôl grŵp poblogaeth sydd mewn mwyaf o angen.

Mae blwch wedi'i arlliwio yn dynodi bod y ward briodol yn ymddangos yn y chwartel uchaf ar gyfer y nodwedd honno. Mae'r wardiau wedi'u rhestru yn y tabl yn nhrefn y gyfradd tlodi uchaf i'r gyfradd tlodi isaf.

Tabl 3

| **Ward** | **Nodwedd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1 person anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ar yr Aelwyd** | **Di-waith** | **Rhiant unigol (Ddim yn gweithio)** | **Pâr â phlant dibynnol (Ddim yn gweithio)** | **Iechyd gwael neu wael iawn** | **Aelwyd Un Person (66+ oed)** |
| Tyisha | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| Llwynhendy | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| Glanymôr | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| Dafen a Felin-foel | ■ | | | ■ | ■ | |
| Cwarter Bach | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| Glanaman | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| Bigyn | | ■ | | ■ | | |
| Rhydaman | ■ | | ■ | | ■ | ■ |
| Y Garnant | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| Porth Tywyn | ■ | ■ | | | ■ | ■ |
| Llanymddyfri | | | | | | ■ |
| Trimsaran | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| Llanybydder | | | | | | ■ |
| Lliedi | | ■ | ■ | | | |
| Gogledd a De Tref Caerfyrddin | | ■ | ■ | ■ | | ■ |
| Pontyberem | ■ | | | | | |
| Elli | | | | | | ■ |
| Cydweli a Llanismel | ■ | | ■ | | ■ | ■ |
| Llanfihangel-ar-arth | | | | | | |
| Llannon | | | | | | |

[40] Defnyddir Chwartelau i rannu set o ddata yn bedair rhan gyfartal neu chwarteri. Mae'n golygu bod modd cymharu data ac mae'n lleihau effaith allanolynnau.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cenarth a Llangeler | | | | | | |
| Y Glyn | | | | | | |
| Hendy-gwyn ar Daf | | | | | | |
| Saron | | | | | | |
| Llandeilo | | | | | | |
| Tre-lech | | | | | | |
| Trefgordd Talacharn | | | | | | |
| Pen-bre | | | | | | |
| Llandybïe | | | | | | |
| Llangyndeyrn | | | | | | |
| Llangynnwr | | | | | | |
| Llangennech | | | | | | |
| Gorllewin Tref Caerfyrddin | | | | | | |
| Cil-y-cwm | | | | | | |
| Hengoed | | | | | | |
| Y Betws | | | | | | |
| Y Bynea | | | | | | |
| Tŷ-croes | | | | | | |
| Yr Hendy | | | | | | |
| Cynwyl Elfed | | | | | | |
| Gors-las | | | | | | |
| Llanboidy | | | | | | |
| Sanclêr a Llansteffan | | | | | | |
| Pen-y-groes | | | | | | |
| Llangadog | | | | | | |
| Dyffryn y Swistir | | | | | | |
| Maenordeilo a Salem | | | | | | |
| Llanddarog | | | | | | |
| Llanfihangel Aberbythych | | | | | | |
| Abergwili | | | | | | |
| Llanegwad | | | | | | |

Fel y byddai rhywun yn disgwyl, mae'r wardiau sydd â'r cyfraddau tlodi uchaf yn gyffredinol yn gartref i gyfran fwy o bobl sy'n uniaethu â'r nodweddion a nodir yn y tabl. Mae'n ymddangos bod cydberthynas rhwng cyfraddau tlodi uwch (y wardiau hynny ar frig y tabl) a ward yn y chwartel uchaf ar gyfer grwpiau poblogaeth lluosog. Mae hyn yn awgrymu bod y rhagdybiaeth o fod ystod o ffactorau gyda'i gilydd yn creu amgylchedd lle gall tlodi wreiddio a ffynnu yn debygol.